O'th flaen, O Dduw, rwy'n dyfod

Caneuon Ffydd: Rhif 175

O'th flaen, O Dduw, rwy'n dyfod
gan sefyll o hir-bell;
pechadur yw fy enw,
ni feddaf enw gwell;
trugaredd 'rwy'n ei cheisio,
a'i cheisio eto wnaf,
trugaredd imi dyro,
'rwy'n marw onis caf.

Pechadur wyf, mi welaf,
O Dduw, na allaf ddim;
'rwy'n dlawd, 'rwy'n frwnt, 'rwy'n euog,
O bydd drugarog im;
'rwy'n addef nad oes gennyf,
drwy 'mywyd hyd fy medd,
o hyd ond gweiddi, "Pechais!"
Nid wyf yn haeddu hedd.

Mi glywais gynt fod Iesu,
a'i fod ef felly nawr,
yn derbyn publicanod
a phechaduriaid mawr;
O derbyn, Arglwydd, derbyn
fi hefyd gyda hwy,
a maddau'r holl anwiredd
heb gofio'r camwedd mwy.

THOMAS WILLIAM, 1761–1844

MYFYRDOD

Sylfaenodd Thomas William, Bethesda'r Fro, ei emynau i gyd o'r bron ar gymalau o adnodau, ac nid yw hwn yn eithriad. Fe adleisia hanes yr Israeliaid a phrofiad Paul hefyd pan ddywed hwnnw: 'Daeth Crist Iesu i'r byd i achub pechaduriaid. A minnau yw'r blaenaf ohonynt. Ond cefais drugaredd . . . (1Tim. 1:13).' Er ei fod yn ei weld fel crefftwr mwy ymwybodol na Phantycelyn ac unrhyw un o'r emynwyr cynnar, fe dalodd Syr Thomas Parry yn ei gyfrol

Hanes Llenyddiaeth Gymraeg Hyd 1900 deyrnged uchel i Thomas William ac i'r emyn hwn yn arbennig am ei natur delynegol a'i gywirdeb mynegiant: 'Yr oedd Thomas William yn fardd rhagorol iawn, a phrin fod yr un emyn Cymraeg mwy diffuant ei deimlad na mwy dillyn ei fynegiant na "O'th flaen, O Dduw, 'rwy'n dyfod". Y mae i'r emyn hwn holl deimladrwydd a rhesymeg farddonol telyneg.'

Ceir ymateb dyn a Duw i ofn yn yr emyn hwn. Ofn yn aml sy'n peri ein bod yn gosod pellter rhyngom a phobl neu bethau eraill. Roedd gan yr Israeliaid ofn am eu bywydau wrth droed mynydd Sinai yn yr anialwch, pan welsant hwnnw'n mygu i gyd: 'Pan welodd yr holl bobl y taranau a'r mellt, yr utgorn yn seinio a'r mynydd yn mygu, safasant o hirbell' (Ex. 20:18). 'Peidiwch ag ofni' yw ymateb Moses i ddychryn y bobl wrth iddo gamu'n eofn i mewn i'r tywyllwch: 'Safodd y bobl o bell, ond nesaodd Moses at y tywyllwch lle'r oedd Duw' (Ex. 20:21). Mae'r Beibl yn dweud wrthym ni mor aml am beidio ag ofni, yn wir fe gyfrifir ei fod yn dweud hynny wrthym 365 o weithiau – un ar gyfer pob dydd o'r flwyddyn.

Ofn ymateb Duw iddo mae Thomas William. Ond yn fwy na hynny, ymateb Duw i'w bechod. Mae'r Beibl yn nodi'n glir beth yw ymateb Duw i ddrygioni: 'Oherwydd nid wyt Dduw sy'n hoffi drygioni, ni chaiff y drwg aros gyda thi' (Salm 5:4); 'Ti sydd â'th lygaid yn rhy bur i edrych ar ddrwg, ac na elli oddef camwri' a ddywed Habacuc wrth Dduw pan mae'n ei atgoffa y dylai wneud rhywbeth ynglŷn â'r rhai drygionus sydd o'i gwmpas! (Hab.1:13) Mae'r ofn yma o ymateb Duw i bechod yn peri mai 'o hir-bell' mae'r emynydd yn sefyll, gan apelio yn unig at drugaredd Duw a chofio, yn wyneb ei bryder a'i ofn, fod Iesu 'yn derbyn publicanod a phechaduriaid mawr'. Mae'n galw'r rhai isaf eu stad i droi oddi wrth eu drygioni, i ddod ato ac i ddibynnu arno. Ni fydd y rhain yn sefyll o hir-bell mwyach, ond mwynhau cymdeithas felys ac agos at Dduw yng Nghrist. 'Ond yn awr, yng Nghrist Iesu, yr ydych chwi a fu unwaith ymhell, wedi eich dwyn yn agos trwy waed Crist' (Eff. 2:13).

GWEDDI

O Dad nefol, diolchaf i ti fod cariad yn bwrw allan bob ofn, ac nad oes raid imi 'sefyll o hir-bell' mwyach. Daeth Iesu â ni yn agos atat. Diolch iti am un sy'n maddau pob pechod a bai. Yn ei haeddiant ef yn unig y mae imi dderbyniad atat. Amen.